Afasic GeirfA

Epilepsi a lleferydd ac iaith

Mae Mudiad Iechyd y Byd yn diffinio trawiad epilepsi fel colled dros dro o weithrediad pob rhan o'r ymennydd o ganlyniad i weithgaredd trydanol eithafol. Gellir colli gweithrediadau corfforol, synhwyraidd neu golli gweithrediadau eraill dros dro.

Gellir cysylltu mathau arbennig o epilepsi gydag anawsterau dysgu, ymddygiad, lleferydd ac iaith. Caiff hyn ei gydnabod yn gynyddol ac mae'r risgiau'n uwch os bydd epilepsi'n digwydd cyn 2 oed. Canfyddiad Parkinson (1) o astudiaeth fach o blant a gyfeiriwyd i asesu eu hepilepsi oedd bod gan 40% ohonynt nam iaith o wahanol raddau o ddifrifoldeb nas canfuwyd cyn hynny.

Gall epilepsi arwain at golli gweithrediad un rhan o'r ymennydd neu fwy dros dro. Os yw'r rhannau hyn yn gysylltiedig â phrosesau deall, trefnu a chyfathrebu, gall arwain at anawsterau i ddefnyddio iaith. Gall yr anawsterau hyn fod yn ddifrifol, gan achosi oedi cyffredinol mewn datblygiad iaith neu at batrwm anhrefnus o ran gallu ieithyddol.

Mae gan y syndromau epilepsi canlynol anawsterau dysgu cysylltiedig:

- Syndrom Landau Kleffner
- ESES neu syndrom Tassinari: a elwir erbyn hyn yn CSWS (Tonnau Pig Parhaus o Gwsg Araf)
- Syndrom Lennox-Gastaut
- Epilepsi Llabed Arleisiol.

Weithiau gall yr anabledd fod yn ysgafn iawn fel nam neu anhwylder iaith lefel uchel. Efallai y bydd ganddynt anawsterau pragmatig ac, felly, ni fydd ganddynt ddealltwriaeth glir o'r defnydd o iaith. Gallant ymddangos yn analluog yn gymdeithasol a gallant gamddeall bwriadau pobl eraill. Yn yr achosion hyn efallai y bydd y plentyn yn ymddwyn yn rhyfedd neu'n ymddwyn mewn ffordd sy'n annerbyniol yn gymdeithasol neu efallai y bydd iaith y plentyn yn ymddangos yn "rhyfedd" mewn ffordd anghyson. Efallai y bydd ganddynt sgiliau gwan o ran cymryd tro, sgiliau cynnal pwnc eithriadol neu gyfyngedig, a sgiliau gwan wrth gyfarch, cwestiynu, ceisio sylw eraill, disgrifio neu wneud sylwadau.

Efallai y bydd rhai plant yn cael cyfnodau o siarad yn aneglur neu'n cael anhawster i siarad yn rhugl. Gall y cyfnodau hyn ddigwydd yn sydyn a gellir eu cysylltu â straen neu ffactorau 'ysgogi' eraill. Gall newid mewn meddyginiaeth achosi'r rhain a/neu gallant ddeillio o weithgaredd epileptogenig h.y. gweithgaredd trydanol yn yr ymennydd nad yw o angenrheidrwydd yn amlwg fel trawiad epileptig.

Cyfeiriadau

Aicardi, J (1986), *Epilepsy in Children*, Raven Press

Aicardi, J (1990), Epilepsy in Brain Injured Children yn *Developmental Medicine and Child Neurology*, 32, t.191-202

Bishop, D (1985), Age of onset and outcome in "aquired aphasia with convulsive disorder" (Landau Kleffner Syndrome) yn *Developmental Medicine and Child Neurology*, 27, t.705-712

Cooper, J a Flowers, R (1987), Children with a history of acquired aphasia: residual language and academic impairments yn *Journal of Speech and Hearing Disorders*, 52 (3), t.251-262

Corbett, J (1985), Epilepsy as part of a handicapping condition yn **Ross, E a Reynolds, E** (Gol) *Paediatric Perspectives on Epilepsy*, John Wiley & Sons

Lees, J (1993), *Children with Aquired Aphasia*, Whurr

(1.) Parkinson, G (1994), Undiagnosed language impairment in children with complex epilepsy yn *Epilepsia*, atodiad 7 Cyfrol 35:48.

Parkinson, G, Complex epilepsy and language disability yn *Bulletin*, Gorffennaf 1995, Royal College of Speech and Language Therapists

Robinson, R (1987), Causes and associations of severe and persistent specific speech and language disorders in childhood yn *Developmental Medicine and Child Neurology*, 33 (11), t.943-962

Taflenni Geirfa perthnasol eraill

- Aphasia/dysffasia (17)
- Anhwylderau semantig a phragmatig (5)
- Oedi mewn datblygu iaith/anhwylder datblygu iaith (3)
- Syndrom Landau Kleffner (23)

Sefydliadau eraill a all helpu

Speech and Language Therapy Service,
The David Lewis Centre for Epilepsy
Mill Lane, Warford, Nr Alderley Edge,
Cheshire SK9 7UD
Ffôn: 01565 872613

National Society for Epilepsy
Chalfont St Peter, Bucks SL9 0RJ
Ffôn: 01494 601300

British Epilepsy Association
New Anstey House, Gateway Drive, Leeds LS19 5XY
Llinell gymorth 0808 800 5050

Ysgrifennwyd gan Gill Parkinson, arbenigwraig mewn iaith plant (therapydd lleferydd ac iaith), The David Lewis Centre for Epilepsy, Swydd Gaer.